



# HANES BYW: CYFNOD CLO (LOCKDOWN) – COFIANT LLYFR COMICS

## ABSTRACT

**Lefel:** Cyfnod Allweddol 1, 5-7 oed (Blwyddyn 1 a 2)

**Pynciau:** Hanes, Celf, Darllen ac Ysgrifennu Creadigol



# Hanes Byw: Cyfnod Clo (*Lockdown*) – Cofiant Llyfr Comics

Ymarfer Hanes Byw gan Amgueddfa Llandudno



**Lefel:** Cyfnod Allweddol 1, 5-7 oed (Blwyddyn 1 a 2)

**Pynciau:** Hanes, Celf, Darllen ac Ysgrifennu Creadigol

Mae hanes yn llawn straeon go iawn wedi'u hysgrifennu gan bobl yn union fel chi! Ymhlith haneswyr mae palaeontolegwyr (gwyddonwyr sy'n astudio ffosiliau planhigion ac anifeiliaid), archeolegwyr (gwyddonwyr sy'n astudio hanes dynol), a daearegwyr (gwyddonwyr sy'n astudio cerrig) sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i astudio ac ysgrifennu hanes. Cofiant llyfr comics yw stori go iawn gyda geiriau a lluniau'n seiliedig ar atgofion person. Mae cofiannau'n helpu haneswyr i weld hanes drwy lygaid yr awdur. Darllenwch y testun yn y swigod a thynnwch lun am y testun hwnnw. Mae canllawiau ar waelod y daflen waith os ydych yn cael trafferth.

## Fy Nghomig Cyfnod Clo

<p>Dyma Fi!</p>	<p>Dyma fi cyn y cyfnod clo</p>
<p>Mae'r term Cyfnod Clo yn gwneud i mi feddwl am hyn</p>	<p>Dyma fi yn ystod y Cyfnod Clo.</p>

## Hanes Byw: Cyfnod Clo (Lockdown) – Cofiant Llyfr Comics



Llongyfarchiadau! Rydych newydd greu hanes.

Os ydych chi'n awyddus i gynnal arbrawf gydag Amgueddfa Llandudno ar gofiannau fel hanes, gallwch ofyn i riant neu warcheidwad e-bostio llun neu gopi o'r cofiant i [deann@llandudnomuseum.co.uk](mailto:deann@llandudnomuseum.co.uk) gan roi **Cofiant Cwarantîn 2020** yn y llinell bwnc. Blwyddyn yn union o ddyddiad cyntaf cyfyngiadau symud cwarantîn y DU, bydd Amgueddfa Llandudno yn sicrhau bod y cofiannau hyn ar gael i'r cyhoedd eu darllen. Fel yr awdur, byddwch chi'n cael gwahoddiad i sgwrs ar sut mae eich barn wedi newid o bosibl ers i chi ysgrifennu'r darn. Os nad ydych chi'n awyddus i anfon y darn i mewn, rhwch y cofiant mewn amlen gan nodi'r dyddiad arno a'i roi i gadw am flwyddyn. Yna, byddwch chi'n gallu dod ag ef allan eto a darllen am eich profiadau eich hun.

### Canllaw Lluniau:

Bocs 1: Tynna lun ohonot ti dy hun.

Bocs 2: Tynna lun ohonot ti'n gwneud rhywbeth hwyl cyn y cyfnod clo.

Bocs 3: Tynna lun o beth mae'r term 'cyfnod clo' (lockdown) yn gwneud i ti feddwl amdano.

Bocs 4: Tynna lun o rywbeth ti'n ei wneud nawr yn ystod y cyfnod.

Bocs 5: Tynna lun o rywbeth ti wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnod clo.

Bocs 6: Tynna lun o beth ti'n meddwl y byddi di'n ei gofio fwyaf am y cyfnod clo blwyddyn o rwan.

### Awgrymiadau Darllen Ffeithiol i blant 5-8 oed:

**El Defo** gan Cece Bell, nofel cofiant graffig teimladwy am ferch yn archwilio ei byddardod ei hun.

**Finding Winnie: The True Story of the World's Most Famous Bear** gan Lindsay Mattick (2016)

Hanes Byw: Cyfnod Clo (*Lockdown*) – Cofiant Llyfr Comics  
4+ oed Stori wefreiddiol am yr arth wnaeth ysbrydoli Winnie-the-Pooh.

**Hidden Figures: The True Story of Four Black Women and the Space Race** gan Margot Lee Shetterly, Winifred Conkling (2018)  
4+ oed Cyflwyniad llyfr lluniau i stori bwysig ac ysbrydoledig.

**Moonshot: The Flight of Apollo 11** gan Brian Floca (2010)  
4+ oed Cofnod meistrolgar sy'n cyfleu hud a lledrith a dirgelwch y daith i'r lleuad.

**Ada Byron Lovelace and the Thinking Machine** gan Laurie Wallmark (2016)  
5+ oed Bywgraffiad diddorol dyfeisydd benywaidd hynod o'r 19eg ganrif.

**I Am Jane Goodall: Ordinary People Change the World** gan Brad Meltzer (2017)  
5+ oed Bywgraffiad bywiog a theimladwy sy'n llawn negeseuon positif.

**Muslim Girls Rise: Inspirational Champions of Our Time** gan Saira Mir (2019)  
6+ oed Bywgraffiadau bywiog am fenywod Moslemaidd hynod sy'n ysbrydoli ac yn diddori.

